

**Arolygiad o Bractis
Deintyddol Cyffredinol
(Lle rhoddwyd rhybudd)
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan, Canolfan
Ddeintyddol Ringland**

20 Ebrill 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal	9
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	12
	Ansawdd yr Amgylchedd	16
6.	Y Camau Nesaf.....	18
	Atodiad A.....	19

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Ddeintyddol Ringland yn 43-44 Canolfan Siopa Ringland, Casnewydd, NP19 9HQ, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ar 20 Ebrill 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.¹ Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008² a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.³ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal ag unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol eraill.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio

¹ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan>

² <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made>

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made>

- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd manylion canfyddiadau o'r math hwn, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae Canolfan Ddeintyddol Ringland yn darparu gwasanaethau i tua 3970 o gleifion yn ardal Ringland yng Nghasnewydd. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae Canolfan Ddeintyddol Ringland yn bractis cymysg sy'n darparu triniaeth breifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol y GIG. Caiff tua 96% o'r gwasanaethau a ddarperir eu darparu drwy'r GIG.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys un prif ddeintydd, un deintydd cyswllt, ac un deintydd sy'n cwblhau ei hyfforddiant sylfaenol ar ôl cymhwyso, pedair nyrs ddeintyddol ac un derbynnydd. Darperir amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys deintyddiaeth ataliol a chosmetig.

4. Crynodeb

Ystyriodd AGIC sut mae Canolfan Ddeintyddol Ringland yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015.

Yn ddiethriad, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y practis ac ar safon y gofal a'r triniaethau. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn groesawgar ac yn rhoi gwybodaeth fanwl iddynt am eu triniaeth. Roedd y gwasanaeth yn gwahodd cleifion i roi adborth er mwyn gwella'r gwasanaethau.

Yn gyffredinol, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi yn unol â'r safonau a'r gofynion perthnasol, gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth diogel o ansawdd uchel i gleifion. Canfuom fod safon y cyfleusterau clinigol a'r trefniadau cadw cofnodion yn y practis o safon eithriadol o uchel. Canfuom fod trefniadau priodol a chadarn ar waith ar gyfer cyfarpar radiograffig, argyfyngau meddygol, cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys, gwaredu gwastraff a dadheintio.

Canfuom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r nod o helpu staff i ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gleifion, a sicrhau bod y cleifion yn derbyn gofal a thriniaeth ddiogel. Roedd angen gwella rhai agweddau ar yr arfarniadau, y polisiau amddiffyn plant ac oedolion, a'r trefniadau ar gyfer cwyno. Ond ar y cyfan, gwelsom dîm staff ymroddedig a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth da yn eu swyddi, a bod y systemau monitro a'r systemau gweinyddol yn gadarn.

Gwelsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel a chroesawgar i gleifion dderbyn triniaeth.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Yn ddieithriad, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y practis ac ar safon y gofal a'r triniaethau. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn groesawgar ac yn rhoi gwybodaeth fanwl iddynt am eu triniaeth. Roedd y gwasanaeth yn gwahodd cleifion i roi adborth er mwyn gwella'r gwasanaethau.

Gwnaethom anfon holiaduron cleifion i'r practis, ac roedd 20 o gleifion wedi cwblhau'r rhain cyn ein harolygiad. Roedd y cleifion wedi'u cofrestru yn y practis ers rhwng pythefnos ac 20 o flynyddoedd.

Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y driniaeth roeddent wedi'i derbyn yn y practis, a dywedodd pob un ohonynt eu bod yn cael croeso gan y staff. Dywedodd rhai cleifion wrthym y bu rhywfaint o oedi cyn iddynt gael eu gweld gan y deintydd, ond dim ond tua 5-15 munud oedd hyn ac nid oedd yn digwydd yn aml. Roedd sampl o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Staff proffesiynol iawn. Rhoddwyd sylw i'm holl bryderon ynghylch derbyn triniaeth, a gwnaethon nhw dawelu fy meddwl".

"Yn gyffredinol, mae croeso hyfryd wrth ddod i mewn, ac maen nhw'n gwneud eu gorau glas i'ch helpu".

"...maen nhw'n groesawgar ac yn gwneud i mi deimlo eu bod yn fy ngwerthfawrogi"

"...gwnaethon nhw wneud i mi deimlo'n gyfforddus iawn yn ystod fy ymweliad"

"Practis glân"

"Roeddwn i bob amser yn teimlo'n nerfus ynglŷn â mynd i'r deintydd, ond rydw i'n teimlo'n ymlaciedig yma a does gen i ddim ofn bellach".

"Gwasanaeth gwych, ges i driniaeth wych".

"Mae lefel proffesiynoldeb y gwasanaeth yn addas, ac maen nhw'n gyfeillgar"

Pan wnaethom ofyn i'r cleifion ynghylch gwybodaeth am driniaethau, dywedodd yr holl gleifion fod y tîm deintyddol yn esbonio'r driniaeth roedd ei hangen arnynt yn ddigon manwl. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol o ran gwybodaeth am driniaethau:

“...maen nhw'n gadael i mi leisio fy marn”.

“...ces i'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn oedd yn digwydd”

“Aeth y deintydd drwy bob cam o'r apwyntiad, gan gynnwys trafod sganiau pelydr-X, a dydw i ddim wedi profi hynny o'r blaen”.

“Ces i esboniad clir o'r holl driniaethau”.

Roedd mwyafrif mawr o'r cleifion yn gwybod sut i fynd at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau arferol. Gwnaethom wirio neges peiriant ateb y practis y tu allan i oriau'r swyddfa, a chawsom fod gwybodaeth wedi'i recordio ynglŷn â phwy i gysylltu â nhw y tu allan i oriau gwaith.

Roedd y practis yn cynnig apwyntiadau rheolaidd ac apwyntiadau brys. Roedd y practis ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener o 9 a.m. i 5 p.m., gydag awr a phymtheg munud i ginio.

Dywedodd y cleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau ac nad oedd ganddynt gwynion, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn gwybod sut i wneud cwyn, pe bai angen. Gwelsom fod y weithdrefn gwyno'n cael ei harddangos yn y manau aros.

Gwelsom fod cleifion yn cael eu gwahodd i roi adborth i'r practis yn nhaflen wybodaeth y practis. Gwnaeth y practis hefyd gynnal arolygon cleifion blynyddol fel rhan o fod yn bractis sy'n hyfforddi. Dywedodd y staff wrthym nad oeddent wedi casglu adborth anffurfiol, na defnyddio'r math hwn o adborth i ddadansoddi tueddiadau neu batrymau er mwyn gwella'r gwasanaeth. Gwnaethom awgrymu y gallai'r practis gadw cofnod o sylwadau anffurfiol fel rhan o'u dull o gasglu adborth gan gleifion.

Roedd cofnodion y cleifion a'n holiaduron yn cadarnhau bod y cleifion yn cael eu hysbysu am risgiau, buddiannau a thriniaethau amgen er mwyn eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eu triniaeth. Roedd pob claf yn derbyn cynllun triniaethau ysgrifenedig.

Roedd amrywiaeth o ddeunyddiau hyrwyddo iechyd ar gael, ac roedd y tîm deintyddol yn cyfeirio'r cleifion at y wybodaeth a oedd fwyaf perthnasol iddynt. Dywedodd un claf ei fod wedi derbyn *“...llawer o gyngor ynglŷn â gofalu am fy*

nannedd''. Roedd taflenni gwybodaeth y practis ar gael i gleifion ac roeddent yn cynnwys crynodeb o wybodaeth ddefnyddiol am y practis.

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal

Yn gyffredinol, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi yn unol â'r safonau a'r gofynion perthnasol, gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth diogel i gleifion o ansawdd uchel. Canfuom fod safon y cyfleusterau clinigol a'r trefniadau cadw cofnodion yn y practis o safon eithriadol o uchel. Canfuom fod trefniadau priodol a chadarn ar waith ar gyfer cyfarpar radiograffig, argyfyngau meddygol, cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys, gwaredu gwastraff a dadheintio.

Cyfarpar Radiograffeg/Dogfennau

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd y dogfennau perthnasol ar gael, gan gynnwys gwiriadau diogelwch, gwaith cynnal a chadw a phroffion, ac roedd y staff wedi mynychu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio.

Roedd y practis wedi dilyn yr holl weithdrefnau perthnasol ar gyfer hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch eu bod yn defnyddio cyfarpar radiograffig a'u bod wedi cynnal archwiliadau sicrwydd ansawdd ar gyfer cyfarpar radiograffig. Roedd hyn yn golygu bod systemau ar waith i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n ddiogel, a bod y cyfarpar radiograffig yn cael ei fonitro'n barhaus.

Dadebru a chymorth cyntaf

Gwelsom fod polisi dadebru ar waith a bod yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar gyfer adfywio cardio-pwlmonaidd/dadebru. Un o'r aelodau staff oedd y swyddog cymorth cyntaf penodedig ar y safle, ac roedd wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf yn ddiweddar. Roedd gan y staff fynediad at gyfarpar cymorth cyntaf priodol pe bai argyfwng meddygol (llewygu). Roedd hyn yn golygu bod y staff wedi cael eu hyfforddi a bod ganddynt y cyfarpar sydd ei angen i ymdrin ag argyfyngau meddygol.

Cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys

Roedd cyffuriau brys wedi eu storio'n ddiogel mewn lleoliad da. Roedd y cyffuriau brys wedi eu storio'n drefnus, ac roedd hyn yn golygu y byddai'r staff yn gallu dod o hyd i unrhyw gyffuriau'n gyflym ac yn hawdd. Roedd system ar waith i sicrhau bod dyddiadau dod i ben cyffuriau'n cael eu monitro, ac roedd yr holl gyffuriau a welsom o fewn eu dyddiad defnyddio. Roedd y padiau rhagnodiadau wedi'u cadw'n ddiogel er mwyn atal pobl rhag mynd atynt heb ganiatâd. Roedd system gadarn ar waith ar gyfer ymateb i unrhyw adweithiau niweidiol i gyffuriau, ac i adrodd y digwyddiadau hyn.

Trin, storio a gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus

Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol yn y practis, ac roedd contract gwaredu gwastraff clinigol cyfredol ar waith. Roedd polisi a gweithdrefn gyfredol ar waith ar gyfer trin mercwri yn ddiogel.

Dadheintio offer a chydymffurfiaeth â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (adolygiad 1)

Nid oedd gan y practis un ystafell neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol oherwydd diffyg lle. Roedd y staff yn defnyddio ystafelloedd triniaeth unigol i ddechrau'r broses ddadheintio, ac yn defnyddio cyfarpar priodol wedi'i selio i gario offer i fan penodedig mewn ystafell arall er mwyn gorffen y broses ddadheintio. Gwelsom fod gan y prif deintydd gynlluniau ar waith i gyflwyno ystafell ddadheintio neilltuedig yn y dyfodol, ac y byddai hyn yn cydymffurfio ag arferion gorau.

Eglurodd y staff y broses ddadheintio yr oeddent yn ei dilyn, ac ym mhob ystafell driniaeth a'r ystafell arall a ddefnyddir ar gyfer dadheintio, gwelsom fod mannau penodedig ar wahân ar gyfer offer glân ac offer budr a chyfleusterau i'w storio. Roedd sanciau penodol ar gael yn yr ystafelloedd triniaeth ar gyfer golchi dwylo, ac roedd cyfarpar diogelu personol priodol ar gael i'r staff. Roedd yr holl offer yn cael eu rhoi mewn bagiau, ac roedd dyddiad dod i ben yn cael ei nodi arnynt. Roedd yr holl offer a wiriwyd o fewn eu dyddiad, ac roedd system ar waith i wirio hyn. Roedd hyn yn golygu bod prosesau addas ar waith i amddiffyn cleifion rhag croes-heintio.

Gwelsom fod llyfrau cofnodi ar gyfer glanhau offer yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau safonol oedd yn cael eu cynnal ar ddechrau a diwedd bob dydd.

Gwelsom fod pob aelod o staff sy'n cyflawni gweithdrefnau dadheintio wedi derbyn hyfforddiant priodol i ddangos cymhwysedd yn eu dyletswyddau.

Gwelsom fod y practis wedi cynnal archwiliadau rheolaidd o'i ofynion rheoli heintiau. Golygai hyn fod systemau ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â gofynion rheoli heintiau, ac i sicrhau bod cyfarpar yn ddigon glân a diogel i'w ddefnyddio gyda chleifion.

Cyfleusterau clinigol

Roedd y cyfleusterau clinigol yn y practis wedi cael eu hailwampio'n ddiweddar, ac roedd dwy ystafell driniaeth yn cynnwys ffitiadau a chyfarpar newydd sbon. Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth, a chanfod eu bod yn eithriadol o lân a thaclus, a'u bod yn cynnwys yr holl gyfarpar perthnasol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r staff. Roedd yr offer pelydr-X wedi ei osod i gael ei ddefnyddio'n ddiogel.

Roedd digon o offer deintyddol wedi ei storio'n ddiogel yn yr ystafelloedd triniaeth, ac roedd yr offer hwnnw mewn cyflwr eithriadol o dda. Gwelsom gyflenwad mawr o eitemau ac offer diogelu untro ar gael i'r staff eu defnyddio.

Gwelsom ddogfennau oedd yn dangos fod cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw a'i archwilio yn unol â'r gofynion.

Ar y cyfan, canfuom fod y cyfleusterau clinigol o safon eithriadol o uchel.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o gofnodion cleifion. Yn gyffredinol, roedd cofnodion y cleifion yn y practis yn ardderchog, a chofnodwyd y gofal a'r triniaethau a ddarparwyd i'r cleifion yn drwyadl ac yn fanwl.

Gwelsom fod y trefniadau ar gyfer cofnodi hanesion meddygol yn gyson yn nodiadau'r cleifion, a bod yr hanesion meddygol yn cael eu diweddarau ym mhob ymweliad. Gwnaethom awgrymu y gallai'r practis gyfuno'r hanes meddygol cychwynnol, a'r hanes meddygol wedi'i ddiweddarau, a'u rhoi ar un ffurflen er mwyn sicrhau bod cydlofnodion yn ddilys ar draws hanes meddygol cyfan y claf.

Canfuom fod y deintyddion yn casglu ac yn cofnodi cydsyniad y cleifion i dderbyn triniaeth. Canfuom hefyd fod y deintyddion yn cofnodi cynlluniau triniaeth ac opsiynau triniaeth yn gyson.

Gwelsom fod hanes cymdeithasol cleifion yn cael ei ystyried a, lle'n briodol, roedd y cleifion yn cael cyngor am roi'r gorau i ysmegu. Roedd y deintyddion yn gwneud atgyfeiriadau priodol i weithwyr ieuchyd proffesiynol eraill pan oedd angen, er enghraifft, mewn achosion o ganser tybiedig, ac roedd y rhain yn cael eu monitro er mwyn sicrhau eu bod wedi cael eu hatgyfeirio.

Yn gyffredinol, fe'n sicrhawyd bod y deintyddion yn gweithio gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth moesol o ansawdd da, ac roedd safon cofnodion y practis yn uchel iawn.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Canfuom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r nod o helpu staff i ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gleifion, a sicrhau bod y cleifion yn derbyn gofal a thriniaeth ddiogel. Roedd angen gwella rhai agweddau ar yr arfarniadau, y polisiau amddiffyn plant ac oedolion, a'r trefniadau ar gyfer cwyno. Ond ar y cyfan, gwelsom dîm staff ymroddedig a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth da yn eu swyddi, a bod y systemau monitro a'r systemau gweinyddol yn gadarn.

Staff

Roedd y practis yn cael ei redeg gan deulu, a daeth y perchennog presennol i'r practis yn 2009. Roedd tua 96% o'r gwasanaethau a ddarparwyd yn y practis yn wasanaethau GIG. Roedd rheolwr practis yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd. Nid oedd rheolwr y practis yn bresennol yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig, yn ymroddedig ac yn canolbwyntio ar y cleifion, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cymorth da.

Roedd pob deintydd wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac roedd ganddynt gontractau cyflogaeth. Roedd gan yr holl ddeintyddion dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd â dyddiad o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Cynhaliwyd gwiriadau cyn cyflogaeth priodol ar gyfer gweddill y tîm deintyddol.

Gwelsom fod dystysgrifau ar gyfer pob un o'r deintyddion yn cadarnhau eu cofrestriad gydag AGIC wedi'u harddangos yn y practis, fel sy'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Gwelsom gofnodion imiwnedd hepatitis B ar gyfer pob aelod o staff clinigol, ac roedd gan bob un ohonynt yswiriant indemniad ar gyfer eu gwaith clinigol.

Gwelsom dystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus oedd wedi'i gwblhau gan y staff clinigol. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael cyfleoedd hyfforddi oedd yn berthnasol i'w swyddi. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym nad oedd aelodau newydd o'r tîm bob amser wedi cael digon o gymorth pan oeddent wedi dechrau gweithio yn y practis. Gwnaethom drafod hyn â'r prif ddeintydd, a ddywedodd wrthym fod amgylchiadau arbennig mewn cyfnod amser penodol lle nad oedd y rheolwyr wedi gallu cynorthwyo aelodau staff newydd gymaint ag y byddent fel arfer yn ei wneud. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi dysgu yn sgil y profiad hwn, a'u bod yn teimlo'n hyderus y byddai staff newydd bellach yn cael digon o gymorth gan y rheolwyr a'r tîm ehangach. Gwelsom fod templed cynefino wedi'i gyflwyno, a gwelsom fod hyn wedi'i

gwblhau ar gyfer un aelod o staff newydd. Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis barhau i ddatblygu a chryfhau ei brosesau cynefino.

Gwelsom gofnodion o'r cyfarfodydd tîm, a dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Gwelsom fod amrywiaeth o bynciau perthnasol yn cael eu trafod, a bod aelodau o'r tîm yn cyflwyno eu pryderon a'u testunau eu hunain i'w trafod. Gwelsom enghreifftiau lle'r oedd rhai arferion wedi newid o ganlyniad i drafodaethau mewn cyfarfodydd tîm. Golygai hyn fod gan y tîm le mwy ffurfiol i drafod pryderon, a'u bod yn dysgu o ganlyniad i hyn, er mwyn gwella'u harferion.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael arfarniadau rheolaidd. Nid oedd cofnodion ysgrifenedig o'r arfarniadau ar gael i ni eu gweld ar ddiwrnod yr arolygiad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw o arfarniadau'r staff, a'u bod yn hygyrch i aelodau staff unigol.

Amddiffyn Plant ac Oedolion

Gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed a hyfforddiant amddiffyn plant. Roedd polisi amddiffyn plant ar waith, er nad oedd hwn yn cynnwys manylion cyswllt lleol. Roedd dogfennau a oedd yn rhoi canllawiau ar gyfer gweithdrefnau amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed, ond nid oedd polisi a gweithdrefn leol ar waith yn hyn o beth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod polisi amddiffyn oedolion agored i niwed ar waith, a bod yr holl staff yn ymwybodol ohono. Dylai polisiâu amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed a pholisiâu amddiffyn plant gynnwys manylion cyswllt lleol er mwyn ei wneud yn haws gwneud atgyfeiriadau.

Cwynion

Gwnaethom edrych yn fanwl ar y weithdrefn gwyno a chanfuom ei bod yn cydymffurfio â gofynion 'Gweithio i Wella'⁴ y GIG, ac eithrio'r ffaith nad oedd manylion y Cyngor Iechyd Cymuned wedi eu cynnwys. Yn ôl y gofynion hyn, dylai manylion y Cyngor fod ar gael mewn gwybodaeth ynghylch cwyno, er mwyn esbonio sut y gall cleifion gael mynediad at eiriolaeth ar gyfer cwynion. Nid oedd y weithdrefn gwyno yn cynnwys y trefniadau ar wahân ar gyfer cleifion preifat fel y nodwyd o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau eu bod yn cynnwys y trefniadau cwyno ar wahân ar gyfer cleifion preifat, a bod y cleifion yn gallu cael gwybodaeth am y trefniadau hyn yn hawdd. Rhaid i'r practis ychwanegu manylion cyswllt y Cyngor Iechyd Cymuned at y wybodaeth i'r cleifion ynglŷn â sut i gwyno.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ar y diwrnod fod cwynion yn cael eu cofnodi, ond nid oeddent wedi derbyn unrhyw gwynion yn ddiweddar. Ni chafodd sylwadau llafar neu sylwadau anffurfiol eu cofnodi. Gwelsom daflenni ar gyfer cofnodi cwynion a oedd yn wag, ond nid oedd tystiolaeth o gadw cofnod canolog na chofnodion parhaus.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod cwynion ffurfiol ac anffurfiol, pryderon, ac adborth gan gleifion yn cael eu cofnodi'n ganolog, a dylid ystyried sut i ddefnyddio'r ffynhonnell hon o wybodaeth er mwyn gwella'r arferion.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gyfforddus yn codi unrhyw bryderon gyda'r rheolwyr ac yn uniongyrchol gyda'r deintyddion. Roedd polisi chwythu'r chwiban ar waith, ac roedd y staff wedi ei ddarllen a'i lofnodi i ddangos eu bod wedi ei ddeall a'u bod yn ymwybodol y gallent ei ddefnyddio i uwchgyfeirio pryderon yn ffurfiol.

Roedd y practis yn aelod o raglen arferion gorau (sicrhau ansawdd) Cymdeithas Ddeintyddol Prydain. Gwelsom fod adolygiadau gan gymheiriaid ac archwiliadau wedi digwydd yn y practis. Golygai hyn fod gan y practis systemau

⁴ Nod **Gweithio i Wella** oedd ei gwneud hi'n haws i gleifion a gofalwyr godi pryderon.

Cyflwynodd ddull unigol a mwy cyfannol, gan ddod â'r broses o reoli cwynion, digwyddiadau a honiadau at ei gilydd, yn seiliedig ar yr egwyddor 'archwiliwch unwaith, archwiliwch yn dda'.

ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaethau yr oeddent yn eu darparu, er mwyn sicrhau eu bod yn gwella'n barhaus.

Polisiau a gweithdrefnau

Ar y cyfan, gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisiau, gweithdrefnau a thystysgrifau cynnal a chadw perthnasol ar waith, a'u bod wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau'n ddiweddar. Roedd y staff wedi llofnodi'r polisiau i ddangos eu bod wedi'u darllen a'u deall.

Ansawdd yr Amgylchedd

Gwelsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel a chroesawgar i gleifion dderbyn triniaeth.

Roedd y practis wedi'i leoli yn ardal Ringland yng Nghasnewydd. Roedd gan y practis dair ystafell driniaeth, pob un ohonynt ar y llawr daear. Roedd lle i barcio am ddim gerllaw.

Roedd y practis ar lawr cyntaf canolfan siopa awyr agored, a gellir ei gyrraedd gan ddefnyddio ramp o'r llawr daear. Roedd mynedfa'r practis yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn trefnu bod defnyddwyr cadair olwyn yn cael eu trin yn yr ystafell agosaf at y dderbynfa er mwyn ei wneud yn haws iddynt.

Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n foddhaol, y tu mewn a'r tu allan. Yn fewnol, roedd yr amgylchedd yn ddigon golau, cynnes, glân a thaclus ac roedd digon o awyr iach.

Roedd amrywiaeth o wybodaeth i gleifion wedi'i harddangos y tu allan a'r tu mewn. Roedd arwydd y tu allan i'r practis gydag enwau a chymwysterau'r holl ddeintyddion, yn ogystal â'r amseroedd agor a'r rhif cyswllt y gallai'r cleifion ei ffonio mewn argyfwng. Roedd rhestrau prisiau i gleifion y GIG a chleifion preifat wedi'u harddangos yn eglur yn y dderbynfa.

Roedd gan y practis doiled bach at ddefnydd y cleifion. Nid oedd hwn yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn, a dywedodd y staff wrthym fod cleifion yn ymwybodol o hyn. Gwnaethom drafod hyn â'r prif ddeintydd a ddywedodd wrthym fod cyfyngiadau ffisegol ac amgylcheddol a oedd yn golygu nad oedd modd gwneud y toiled yn hygyrch. Roedd toiled ar wahân ar gael i'r staff hefyd. Roedd y rhain i'w gweld yn lân ac yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo addas i atal croes-heintio.

Roedd maint y man aros yn addas ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth. Dywedodd y staff wrthym fod y lle o amgylch y dderbynfa'n gallu bod yn brysur iawn, ond eu bod yn gwybod sut i gynnal cyfrinachedd cleifion yn yr amgylchiadau hyn. Roedd y dderbynnydd yn gallu defnyddio'r system i fonitro a oedd apwyntiadau'n rhedeg yn hwyr, a dywedodd ei fod yn rhoi gwybod i'r cleifion yn yr achosion hyn. Roedd yr ystafell aros yn cynnwys deunydd darllen ac amrywiaeth o gyngor a phosteri a thafleuni hyrwyddo iechyd.

Roedd arwydd ar gyfer yr allanfa dân, ac roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu harchwilio'n ddiweddar. Roedd mesurau diogelwch priodol ar waith er mwyn rhwystro mynediad heb awdurdod i'r adeilad.

Roedd gan y practis gofnodion papur a chofnodion electronig. Roedd cofnodion papur wedi eu storio dan glo, ac roedd copi wrth gefn o'r cofnodion electronig yn cael ei wneud yn awtomatig. Golygai hyn fod y practis yn cymryd rhagofalon priodol i ddiogelu gwybodaeth y cleifion.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd Canolfan Ddeintyddol Ringland yn mynd i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn y practis, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a bydd yn cael ei werthuso yn rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Canolfan Ddeintyddol Ringland

Dyddiad yr arolygiad: 20 Ebrill 2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Profiad y claf			
	Dim			
	Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal			
	Dim			
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth			
12	Dylai'r practis sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw o arfarniadau'r staff, a'u bod yn hygyrch i aelodau staff unigol. [Safonau Iechyd a Gofal 2015 Safon 7.1, Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol]			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	6.6.1]			
12	Rhaid i'r practis sicrhau bod polisi amddiffyn oedolion agored i niwed ar waith, a bod yr holl staff yn ymwybodol ohono. Dylai polisïau amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed a pholisïau amddiffyn plant gynnwys manylion cyswllt lleol er mwyn ei wneud yn haws gwneud atgyfeiriadau. [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 8.5; Safonau Iechyd a Gofal 2015 Safon 2.7]			
13	Rhaid i'r practis sicrhau eu bod yn cynnwys y trefniadau cwyno ar wahân ar gyfer cleifion preifat, a bod y cleifion yn gallu cael gwybodaeth am y trefniadau hyn yn hawdd. Rhaid i'r practis ychwanegu manylion cyswllt y Cyngor Iechyd Cymuned at y wybodaeth i'r cleifion ynglŷn â sut i gwyno. [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, 2011, Gweithio i Wella 2011]			
13	Rhaid i'r practis sicrhau bod cwynion ffurfiol ac anffurfiol, pryderon, ac adborth gan			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	gleifion yn cael eu cofnodi'n ganolog, a dylid ystyried sut i ddefnyddio'r ffynhonnell hon o wybodaeth er mwyn gwella'r arferion. [Safonau Iechyd a Gofal 2015 Safon 6.3, Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.1.6, 5.1.7]			
	Ansawdd yr Amgylchedd			
	Dim			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras):

Teitl:

Dyddiad: